

**Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gymhaliwyd
Yn Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh nos Fercher y 15fed o Fai 2019**

Preseanol: *J H Owens (Cad), R F Owen, M T Smithurst, C Davies, K Woods, C G Topps, A Jones, A Hughes E Evans, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau: *R B Owen, W Hughes, S Austin, Cyng Bryan Owen*

1. Mr & Mrs Harwood, Gwely a Brechwast Prince Llewelyn

Y penderfyniad ynglyn â'r gorchymun i ddiidymu'r hen briffordd wedi ei ohirio o gyfarfod mis Ebrill. Mr a Mrs Harwood yn bresennol i gyflwyno gwybodaeth bellach i gefnogi eu cais. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Mr a Mrs Harwood egluro eu sefyllfa.

Mr a Mrs Harwood yn egluro fod y diffyg o lecyn parcio yn cael effaith negyddol ar y busnes ac fod ganddynt dystiolaeth o gwsmeriaid yn peidio dod i aros i'r Prince Llewelyn oherwydd y sefyllfa. Maent yn pwysleisio na fyddent yn newid edrychiad yr ardal ac y byddent yn fodlon ystyried gosod panel neu arwydd yn darparu gwybodaeth ynglyn â hanes y tir fel y briffordd wreiddiol. Maent hefyd yn datgan fod eu cwsmeriaid yn defnyddio'r busnesau eraill yn y pentref, megis y dafarn, y siop a Llys Llewelyn, ac o ganlyniad yn cyfrannu tuag at yr economi leol.

Darlennodd y Cadeirydd lythyr oddi wrth Mr H R Hughes yn gwrthwynebu'r cais. Roedd Mr Hughes wedi gwneud cais tebyg ym 2005 ond cafodd ei wrthod. Mr Hughes yn datgan ei fod wedi derbyn y rhesymau a roddwyd ar y pryd h.y. defnydd y tir ar gyfer parcio gan drigolion y pentref a cherddwyr / ymwelwyr. Mae'n credu fod y rhesymau yn fwy dilys heddiw oherwydd y cynydd mewn cerddwyr a phobl â chwn yn ymweld â'r ardal.

Mr a Mrs Harwood yn egluro fod y cais gwereiddiol wedi ei wneud pan oedd y Prince Llewelyn yn gartref preifat yn hytrach na busnes.

Deallir for y cais cynllunio mewn perthynas â newid defnydd y Prince Llewelyn o fod yn gartref i fusnes Gwely a Brechwast yn nodi y dylai parcio mewn perthynas â'r busnes fod o fewn ffiniau tir yr eiddo.

CGT yn mynegi pryderon ynglyn â'r diffyg mynediad arall i'r pentref petai digwyddiad difrifol ar y gyffordd. Mae mynediad wrth y bont yn ddibynnol ar y llanw ac, mewn amgylchiadau o'r fath, yr hen briffordd fyddai'r unig fynediad.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr a Mrs Harwood am fynychu a gadawodd y ddau y cyfarfod.

The matter was discussed at length. Penderfynwyd yn unfrydol na fyddai'r Cyngor Cymuned yn cymeradwyo'r gorchymyn diddymu'r hen briffordd oherwydd y rhesymau canlynol:

- Diffyg mynediad arall i'r pentref petae digwyddiad difrifol ar y gyffordd
- Ni fyddai tynnu'r tir o berchnogaeth cyhoeddus yn rhoi budd i'r mwyafrif helaeth o drigolion y gymuned

Clerc i gysylltu â Mr a Mrs Harwood i'w hysbysu o'r penderfyniad.

2. Cofnodion

Cafodd y cofnodion ar gyfer y Cyfarfod a gynhaliwyd 20/03/2019 eu derbyn yn gywir. Cynigwyd gan KW ac eilwyd gan AH.

Cafodd y cofnodion ar gyfer y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/04/2019 eu derbyn yn gywir. Cynigwyd gan AJ ac eilwyd gan CD.

3. Materion yn codi o gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/04/2019

3.1 Gwefan – Clerc i anfon gwybodaeth ymlaen i Mr Stallwood i'w gynnwys ar y wefan.

3.2 Croesffordd Dothan– arwyddbost newydd – Clerc i wneud ymholiadau.

3.3 Gor-dyfiant ar y ffin rhng y llwybr troed ym Maes Llewelyn a'r cae chwarae– Adroddwyd nad oedd y gor-dyfiant wedi ei dorri. KW i wneud ymholiadau gyda Mr Liam Jones.

3.4 Aberffraw mewn blodau – JHO yn adrodd ei fod wedi prynu cafnau a phlanhigion am gyfanswm cost o £47.93. JHO i dderbyn ad-daliad. CD hefyd yn adrodd fod ganddi blanhigion ar gael.

3.5 Swydd y Clerc – Dim ymholiadau ynglyn â swydd y Clerc. Adroddwyd fod yr hysbyseb wedi ei hafnon allan i holl aelodau staff Cyngor Sir Ynys Môn drwy'r sustem ebyst fewnol. Gofynnir i'r holl aelodau wneud ymholiadau gydag unigolion a all fod â diddordeb. Clerc presennol i aros yn y swydd hyd at ddiwedd Mehefin 2019.

3.6 Cae chwarae – Adroddwyd nad oedd y canghenau a'r drain wedi eu torri. KW i wneud ymholiadau gyda Mr Liam Jones.

3.7 Hysbysfwrdd– Adroddodd JHO nad oedd gofol digonol ar gyfer hysbysfwrdd ar wal y neuadd ger y fynedfa. Opsiynau eraill i'w hystyried. Ffenestr Swddfa'r Post i'w defnyddio dros dro.

3.8. Prynu tir y fynwent– Cadarnhad wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn fod y gwerthiant yn mynd yn ei flaen a bod y mater yn nwylo'r cyfreithwyr.

4. Ceisiadau cynllunio

4.1. Gorsaf Ty Croes– cais cynllunio adeilad rhestredig ar gyfer gosod ffenestri newydd. Dim sylwadau.

4.2. Plot 101 Glan y Môr, Aberffraw – Cais cynllunio ar gyfer codi annedd newydd. Clerc i wneud y sylwadau canlynol:

- Mae dyluniad y adeilad arfaethedig yn un modern nad ydyw'n gweddu â chymeriad yr ardal.
- Pryderon ynglyn ag uchder yr adeilad mewn perthynas ag adeiladau cyfagos
- Pryderon ynglyn â safle parcio ar gyfer yr annedd. Mae'n bosib fod y llecyn dynodedig o dan ddwr pan ddaw'r llanw i mewn.

5. Cyfrifon 2018-2019

Rhannodd y Clerc grynodedb o'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys rhestr o'r holl daliadau a'r derbyniadau a chysoniad o'r cyfrif banc. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW fod y cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer 2018-19 i'w cyflwyno i'r Archwilydd Mewnol.

6. Gohebiaeth

6.1 Un Llais Cymru– Ffurflen Tynnu allan o'r lwfans i Gynghorwyr – Rhannodd y Clerc gopiau o'r ffurflen ac eglurodd ei fod yn fater i'r unigolyn os oeddent yn dymuno tynnu allan o dderbyn y lwfans o £150.00 ai peidio. Gwneir y taliadu i gynghorwyr nad ydynt wedi tynnu allan ym mis Mawrth 2020.

7. Unrhyw fater arall

7.1 Cae chwarae – Adroddwyd fod y defaid wedi eu cyrchu o'r cae.

7.2 Bro Branwen – Pryderon wedi eu mynegi yng nghyfarfod mis Ebrill nad yw'r cwmni torri glaswellt yn casglu'r gwair wedi ei dorri o amgylch Bro Branwen. Cyng B Owen ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

7.3 Lôn yn arwain tuag at Y Cei – Cyng B Owen ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

7.4 Porth Trecastell (Cable Bay) – Pryderon ynglyn â cherbydau wedi eu parcio ar ochr y ffordd creu perygi i ddefnyddwyr y ffordd a cherddwyr. Cafwyd adroddiadau fod damwain wedi digwydd yn ddiweddar pan gamodd unigolyn allan i'r ffordd o flaen car. Llinellau melyn wedi eu trafod yn y groffennol ond deallir nad yw'r Cyngor Sir yn awyddus i weithredu. CGT yn awgrymu defnyddio conau dim aros dros dro. Cyng P Rogers i gysylltu â Mr Huw Percy, Adran Briffyrdd i fynegi'r pryderol ynglyn â diogelwch.

7.5 Y fynwent – Pryderon ynglyn â throïadau glaswellt ar rai o'r beddfeini.. JHO i drafod gyda Mr Liam Jones. Anfonebau am dorri glaswellt wedi eu hawdurdodi i'w talu.

7.6 Bro Branwen – AJ yn mynegi pryder ynglyn â'r diffyg canllaw ar y grisau ym Mro Branwen. Deallir fod rhywun wedi syrthio yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Cyng P Rogers i wneud ymholiadau.

7.7 "Sleepers" rheilfford ger y fynedfa at y traeth– Clerc yn adrodd fod Ystad Bodorgan am wneud ymholiadau gyda'u darparwyr yswiriant cyn gwneud penderfyniad ynglyn â gosod "sleepers" newydd.

8. Cyllid

Taliadau:

17/04/2019	L Jones	Torri glaswellt	£ 600.00
05/05/2019	L Jones	Torri glaswellt	£ 160.00
15/05/2019	J H Owens	Cafnau a phlanhigion	£ 47.93

Derbyniadau:

12/04/2019	CS Ynys Môn	Grant llwybrau cyhoeddus	£ 700.00
26/04/2019	CS Ynys Môn	Priseb	£2500.00